OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1855 (Cy.179)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23A(3) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) a pharagraff 19B(3) o Atodlen 2 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001

**2.** Mae Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001(**2**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn Rheoliad 3 (Plant cymwys), hepgorwch baragraff (2)(b),

(b) yn Rheoliad 4 (Plant perthnasol)—

(i) yn lle paragraff (4) rhowch—

"(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), nid yw unrhyw blentyn sydd wedi byw gyda pherson sy'n dod o fewn adran 23(4) o'r Ddeddf ("lleoliad teuluol") am gyfnod parhaus o chwe mis neu fwy i fod yn blentyn perthnasol er ei fod yn dod o fewn adran 23A(2).";

(ii) ar ôl paragraff (5) mewnosodwch—

"(6) Os

(a) yw lleoliad teuluol o fewn ystyr paragraff (4) wedi torri lawr ac mae'r plentyn yn peidio â byw gyda'r person o dan sylw, a

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd adran 23A(3) gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 8(7) o Ddeddf 2000. Diffinnir ystyr "prescribed" yn adran 105(1) o Ddeddf Plant 1989.

(**2**) O.S. 2001/2189.

(b) yw cyfnod o chwe mis wedi mynd heibio ers dechrau'r lleoliad teuluol,

mae'r plentyn i'w drin fel plentyn perthnasol.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
16 Gorffennaf 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"). Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth i blant a phobl ifanc 16 oed a throsodd, sy'n derbyn gofal, neu sydd wedi derbyn gofal, gan awdurdod lleol.

Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 2001 yn cael ei ddiwygio er mwyn i blant sydd wedi'u lleoli gyda rhiant, gyda pherson y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu gyda rhywun sy'n meddu ar orchymyn preswylio o'i blaid o dan adran 23(4) o Ddeddf Plant 1989 ac sydd yn destun gorchymyn gofal, fod yn gymwys i dderbyn cymorth gan yr awdurdod lleol.

Mae Rheoliad 4 o Reoliadau 2001 yn cael ei ddiwygio er mwyn i blant sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn byw gyda rhiant, gyda pherson y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu gyda rhywun sy'n meddu ar orchymyn preswylio o'i blaid, i ddal i fod yn gymwys i dderbyn cymorth gan yr awdurdod lleol os yw'r lleoliad yn torri lawr wedyn.